Fframwaith Cymhwysedd Digidol Blynyddoedd 7 i 9		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Llinyn	**Dinasyddiaeth – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddant yn barod am yr agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddant yn datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddynt ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol.**			
Dinasyddiaeth	**Elfen**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
	Hunaniaeth, delwedd ac enw da	• esbonio sut y caiff eu defnydd digidol ei dracio, *e.e. gwybod am gyfreithiau diogelu data sylfaenol a sut y mae sefydliadau yn gyfrifol am ddiogelwch data a gesglir* • defnyddio strategaethau ar gyfer gwarchod yn erbyn lladrata hunaniaeth a sgamiau sy'n ceisio cael mynediad at wybodaeth bersonol ar-lein, *e.e. rheoli hanes pori a chwcis yn ddiogel*	• trafod manteision a risgiau cyflwyno'u hunain mewn gwahanol ffyrdd ar-lein, *e.e. yn broffesiynol ac yn bersonol*	• deall bod ganddynt ôl-troed digidol ac y gellir chwilio am yr wybodaeth hon, a'i chopïo a'i hanfon ymlaen, *e.e. gwybod sut i wirio gosodiadau diogelwch eu dyfeisiau a/neu'r meddalwedd y maent yn ei ddefnyddio*
	Iechyd a lles	• myfyrio am rôl y cyfryngau digidol yn eu bywydau a'u harferion o ran y cyfryngau, *e.e. archwilio sut y gall y cyfryngau chwarae rôl bwerus o ran siapio ein syniadau am stereoteipiau*	• arddangos ymddygiadau ar-lein iach (yn gorfforol ac yn feddyliol) ac adnabod ymddygiad annerbyniol, *e.e. mewn perthynas â seiberstelcian, aflonyddu, cam-fanteisio ar ymddiriedaeth a radicaleiddio*	• adnabod stereoteipiau a'u heffeithiau mewn ystod o gyfryngau, *e.e. myfyrio'n feirniadol ar stereoteipiau yn y cyfryngau torfol, y cyfryngau cymdeithasol ac mewn gemau cyfrifiadurol*
	Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth	• deall hawlfraint, trwyddedu, defnydd teg, a'u hawliau nhw fel y sawl a greodd y deunydd, *e.e. ystyried y gwahanol ffyrdd o drwyddedu gwaith sydd o dan hawlfraint* • esbonio cyfreithiau hawlfraint sylfaenol, *e.e. dysgu bod hawlfraint yn system gyfreithiol sy'n diogelu hawliau i waith creadigol*	• deall hawlfraint, trwyddedu, defnydd teg, a'u hawliau nhw fel y sawl a greodd y deunydd • esbonio cyfreithiau hawlfraint sylfaenol, *e.e. archwilio goblygiadau moesegol a chyfreithiol lladrad a llên-ladrad, a gwybod fod hynny'n anghyfrifol ac yn amharchus* • ymddwyn a gweithredu'n gyfrifol fel crëwyr a defnyddwyr gwaith creadigol, *e.e. archwilio penderfyniadau a wneir gan grëwyr wrth arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau creadigol, gan roi ystyriaeth i faterion moesegol o fywyd go iawn*	• esbonio agweddau cyfreithiol a moesegol ar barchu gwaith creadigol, *e.e. archwilio goblygiadau moesegol a chyfreithiol lladrad a llên-ladrad, a gwybod fod hynny'n anghyfrifol ac yn amharchus; defnyddio'u dealltwriaeth o'r rheolau mewn gwahanol senarios*
	Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio	• mireinio strategaethau i ddiogelu eu hunain ac eraill rhag peryglon posibl ar-lein, *e.e. wrth gyfathrebu ar-lein a dangos gallu gweithredol i ddelio ag ymddygiad amhriodol/camddefnyddio gan weithredu i leihau risgiau* • hidlo'r cyfathrebu a dderbynir, *e.e. trefnu e-byst, penderfynu pwy i ddilyn ar gyfryngau cymdeithasol, ac ati; defnyddio offerynnau digidol yn gyfrifol i ymwneud ag eraill gan ddefnyddio nodweddion uwch* • arddangos gwybodaeth sylfaenol o'r cyfreithiau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad ar-lein, *e.e. seiberfwlio, aflonyddu, datganiadau anwir a chyhoeddi cynnwys/delweddau amhriodol heb ganiatâd.*	• adnabod sefyllfaoedd risg uchel a strategaethau i'w hosgoi, *e.e. gwerthuso ymddygiad yn feirniadol i gyfyngu ar sefyllfaoedd risg uchel* • diffinio ac adnabod ffurfiau uwch o seiberfwlio, sut i'w osgoi a chanlyniadau gweithredoedd o'r fath • gwerthuso'n feirniadol ymddygiad eraill ar-lein ac adnabod sut y gall fod yn fuddiol neu'n niweidiol.	• addasu ymddygiad a rhyngweithiad ar-lein ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan ystyried gwerthoedd diwylliannol byd-eang, *e.e. gwerthuso ymddygiad a rhyngweithiad yn feirniadol, gan ystyried gwerthoedd diwylliannol byd-eang; ystyried sut y mae eraill yn gweld ymddygiad.*

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36443 ISBN digidol 978-1-83876-220-9

Fframwaith Cymhwysedd Digidol Blynyddoedd 7 i 9		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Llinyn	**Rhyngweithio a chydweithio – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus.**			
Rhyngweithio a chydweithio	**Elfen**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
	Cyfathrebu	• rheoli a defnyddio ystod gynyddol o gyfrifon cyfathrebu ar-lein a'r nodweddion y mae pob un yn ei gynnig, *e.e. cyfrifon e-bost, cyfrifon negeseuo, ac ati*	• dewis a defnyddio gwahanol offerynnau cyfathrebu ar-lein at ddibenion penodol, a hynny gyda medrusrwydd cynyddol, *e.e. creu a rheoli llyfr cyfeiriadau a threfnu cysylltiadau ar restrau postio priodol; yn annibynnol, gwneud galwad fideo at ddiben penodol gan gynnwys rhannu sgrin lle bo hynny'n briodol*	• dewis a defnyddio gwahanol offerynnau cyfathrebu ar-lein at ddibenion penodol, a hynny gyda medrusrwydd cynyddol, *e.e. gosod postgyfuno lle bo'n berthnasol gan ddefnyddio meddalwedd prosesu geiriau a thaenlenni; defnyddio nodweddion uwch y darparwr e-bost (llofnod, ateb awtomatig, derbynneb, wijets)*
	Cydweithio	• ystyried newidiadau cronolegol a wneir i ffeil a dewis pwyntiau adfer priodol os bo angen	• yn annibynnol, dewis a defnyddio offerynnau cydweithio ar-lein i greu prosiect gydag eraill	• yn annibynnol, dewis a defnyddio ystod o offerynnau cydweithio i greu prosiect gydag eraill, *e.e. defnyddio technoleg ar-lein i rannu a chyflwyno syniadau i eraill*
	Storio a rhannu	• tracio newidiadau mewn dogfen/gweld hanes diwygio'r ddogfen ac adfer fersiwn blaenorol lle bo hynny'n briodol • ystyried maint y ffeil a pha fath ydyw, a deall y gall fod cyfyngiad o ran faint o le sydd ar yriannau storio.	• defnyddio technegau rheoli ffeiliau uwch, *e.e. tagio, cywasgu.*	• deall amgryptio syml a diben amgryptio, *e.e. anfon data sensitif yn fwy diogel* • defnyddio hyperddolenni perthnasol ac esbonio pam y defnyddiwyd y dechneg briodol o reoli ffeiliau, *e.e. mae rhai systemau storio ffeiliau'n defnyddio hyperddolenni deinamig, felly os newidir lleoliad ffeil, mae'r ddolen yn aros yr un peth – yn wahanol i systemau eraill sy'n golygu bod hyperddolenni'n torri o newid lleoliad ffeil.*

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36443 ISBN digidol 978-1-83876-220-9

Fframwaith Cymhwysedd Digidol Blynyddoedd 7 i 9		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Llinyn	**Cynhyrchu – Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath.** **Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol.**			
Cynhyrchu	**Elfen**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
	Cynllunio, cyrchu a chwilio	• dewis a defnyddio technegau cynllunio effeithiol • chwilio am wybodaeth sydd ei hangen ac asesu safon yr wybodaeth y deuir o hyd iddi; asesu ffynonellau gwybodaeth i bennu a ydynt yn ddibynadwy a chyfeirnodi ffynonellau dilys, *e.e. chwilio drwy ystod o ffynonellau a gwerthuso canlyniadau'r chwiliad yn feirniadol*	• dewis a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cynllunio effeithiol • chwilio drwy amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio technegau chwilio perthnasol a chynyddol gymhleth; trefnu chwiliadau blaenorol a gwybodaeth er cyfleustod, a chyfeirnodi gan ddefnyddio dulliau priodol, *e.e. dechrau categoreiddio a grwpio chwiliadau i wneud trin gwybodaeth yn haws; sicrhau bod ffynonellau gwybodaeth yn gyfredol, yn ddibynadwy ac yn ddilys*	• dewis a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cynllunio effeithiol • gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth, cyfiawnhau barn a rhesymau dros ddewis pethau a chyfeirnodi gan ddefnyddio dulliau priodol • defnyddio ystod o chwiliadau cymhleth yn annibynnol, *e.e. a/neu/ + / - /ddim*
	Creu	• defnyddio sawl nodwedd mewn ystod o feddalwedd i gynhyrchu a mireinio cydrannau amlgyfrwng • defnyddio offerynnau meddalwedd i greu a gwella cydrannau testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo; cyfuno'r cydrannau i gynhyrchu canlyniadau priodol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion	• defnyddio sawl nodwedd mewn ystod o feddalwedd i gynhyrchu a mireinio cydrannau amlgyfrwng • defnyddio offerynnau meddalwedd i greu a gwella cydrannau testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo; cyfuno'r cydrannau i gynhyrchu canlyniadau priodol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion • archwilio a datblygu strwythurau dogfennau testun ffurfiol at ddibenion penodol	• dewis a defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, offerynnau a thechnegau priodol i greu, addasu a chyfuno cydrannau amlgyfrwng • defnyddio offerynnau meddalwedd i greu, gwella a chyfuno testun, delweddau, sain, fideo ac animeiddiad ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion • datblygu ystod o strwythurau dogfen testun ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion
	Gwerthuso a gwella	• gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill a chyfiawnhau'r cynnwys o ran y gynulleidfa, *e.e. rhoi sylw ar waith gan eraill mewn perthynas â diwyg a chynnwys* • ymateb i adborth.	• cyfiawnhau'r rhesymau dros ddewisiadau ac esbonio manteision ac anfanteision y gwahanol allbynnau, *e.e. cynhyrchu adroddiad gwerthuso sylfaenol gan gynnwys cyfiawnhad dros ddiwyg a chynnwys* • awgrymu a gwneud gwelliannau'n seiliedig ar adborth a hunanwerthuso.	• cyfiawnhau'r rhesymau dros ddewisiadau ac esbonio manteision ac anfanteision y gwahanol allbynnau • awgrymu a gwneud gwelliannau'n seiliedig ar adborth a hunanwerthuso a rheiny'n welliannau sy'n berthnasol o ran y diben a'r gynulleidfa.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36443 ISBN digidol 978-1-83876-220-9

Fframwaith Cymhwysedd Digidol Blynyddoedd 7 i 9		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Llinyn	**Data a meddwl cyfrifiadurol – Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddynt yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys.** **Drwy'r elfennau hyn, bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data; byddant yn archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n byd digidol, a bydd yn rhoi iddynt sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinamig.**			
Data a meddwl cyfrifiadurol	**Elfen**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**	**Mae dysgwyr yn gallu:**
	Datrys problemau a modelu	• adnabod gwahanol rannau o broses, *e.e. newidynnau, lŵpiau, datganiadau achos a sylwadau* • rhagweld canlyniad proses ar ôl newid y mewnbwn, *e.e. rhagweld effaith newid/golygu set o gyfarwyddiadau* • addasu siart llif i newid amrywiolion algorithm, *e.e. ychwanegu proses neu gyfrwr i gynyddu neu leihau gwerthoedd*	• adnabod patrymau a chyfleoedd ar gyfer ailddefnyddio cod (cyfarwyddiadau), *e.e. rhannau o ddull neu restr gyfarwyddyd y gellir ei defnyddio i ddatrys problemau tebyg mewn gwahanol sefyllfaoedd a/neu systemau* • meddwl yn rhesymegol am broblem i ddod o hyd i ddatrysiad, *e.e. esbonio a chyfiawnhau pam fod datrysiad i broblem yn briodol* • addasu siart llif a roddwyd i newid rheolau algorithm, *e.e. addasu cyflyrau gweithredoedd ar siart llif, megis newid ffiniau cyfrwr mewn lŵp i newid sut y mae'r rhaglen yn gweithio* • newid algorithm a rhagweld y canlyniad	• dadelfennu prosesau cymhleth a phennu gweithrediadau rhannau unigol, *e.e. sawl WHILE, FOR ac IF mewn amgylcheddau rhaglennu seiliedig naill ai ar destun neu ar flociau* • dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu siartiau llif a roddir i bennu swyddogaeth neu allbwn proses • cydnabod bod algorithmau'n agnostig o ran iaith • dilyn a datblygu datrysiadau rhesymegol, *e.e. gallu arddangos sut y gellid datrys problem gan ddefnyddio dull priodol* • canfod a chywiro camgymeriadau syml mewn algorithm, *e.e. canfod a chywiro camgymeriad cystrawennol, megis pan fo hafalnod ar goll neu enwau newidiol wedi'u sillafu'n anghywir*
	Llythrennedd gwybodaeth a data	• creu ffurflen cipio data, cipio data, chwilio data a chreu cronfa ddata neu daenlen gyda'r dull mewnbynnu data priodol.	• llunio tablau amlder ar gyfer setiau data, wedi'u grwpio lle bo hynny'n briodol, ac yn perfformio dadansoddiad syml ar setiau data.	• chwilio drwy setiau data mawr a nodi tueddiadau lle bo hynny'n briodol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36443 ISBN digidol 978-1-83876-220-9